



CAR LINC MÔN

Beth ydy 'Car Linc Môn'?

Cynllun cludiant cymunedol cymdeithasol gwirfoddol ar Ynys Môn ydy **Car Linc Môn**. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl sydd heb unrhyw ffordd arall o wneud teithiau hanfodol.

Mae'r cynllun yn bennaf ar gyfer ardaloedd gwledig lle mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn brin, ond hefyd ar gyfer pobl sydd ddim yn ddigon ffit i ddefnyddio cludiant cyhoeddus - yn y wlad neu'r dref. Ers sefydlu'r cynllun yn 2001 mae **Car Linc Môn** yn darparu gwasanaeth teithio hanfodol i bobl sydd angen mynd i:

- Apwyntiad ysbyty
- Ymweld â'r meddyg, deintydd, optegydd
- Mynychu Canolfan Gofal Dydd
- Casglu presgrisiwn
- Siopa
- Ymweld â pherthnasau neu ffrindiau sy'n sâl.



Pwy sy'n trefnu 'Car Linc Môn'?

Mae'r cynllun yn cael ei redeg o ddydd i ddydd o swyddfa Medrwn Môn yn Llangefni (dydd Llun i ddydd Gwener, 9 a.m.- 4 p.m.). Bydd aelod o staff Medrwn Môn yn gyfrifol am gymeradwyo pob cais am gludiant, yn trefnu i yrwyr gwirfoddol wneud pob taith, ac yn cynnig arweiniad petae unrhyw anawsterau'n codi.

Sut mae 'Car Linc Môn' yn gweithio?

Pan fydd person sydd angen cludiant ar gyfer taith hanfodol yn cysylltu â Medrwn Môn, bydd aelod o staff yn cofnodi'r manylion, yn cadarnhau bod y daith yn gymwys, ac yn ffonio i gael hyd i yrwr sy'n gallu gwneud y siwrne. Mae angen o leiaf 3 diwrnod o rybudd, a lle bo modd, trefnir teithiau sy'n cyfuno anghenion nifer o deithwyr. Bydd amcan bris, a'r dull o dalu wedi cael eu trefnu cyn y siwrne, ynghyd ag unrhyw drefniadau eraill e.e. amser dychwelyd, os oes angen hebryngydd, a oes gan y defnyddiwr gwasanaeth fathodyn glas a.y.b. Bydd pob cais y cael ei asesu yn ôl ei haeddiant. Mae mynediad i'r gwasanaeth fwy nag unwaith yr wythnos yn bosibl, ond dim ond yn unol â disgresiwn Medrwn Môn.

Pwy sy'n cael defnyddio 'Car Linc Môn'?

Mae **Car Linc Môn** yn wasanaeth sydd ar gael i drigolion Ynys Môn (50+ oed) ar gyfer gwneud teithiau hanfodol ar adegau lle nad oes cludiant addas arall ar gael. Cyfrifoldeb Medrwn Môn ydy penderfynu os ydy taith benodol yn gymwys, ond mae'r rhestr wirio isod yn rhoi arweiniad o ran y meini prawf i gael defnyddio'r gwasanaeth:-

- Oes gan y teithiwr fynediad i unrhyw gludiant preifat e.e. car ei hun?
- Oes unrhyw gludiant cyhoeddus y gallai'r teithiwr ei ddefnyddio?
- Ydy hi'n bosib i'r teithiwr newid amser y daith er mwyn gallu defnyddio ffordd arall o deithio?
- Ydy hi'n bosib i'r teithiwr ddefnyddio Gwasanaeth Car yr Ambiwllans?
- Ydy hi'n rhesymol i'r teithiwr logi tacsï ar gyfer y daith?
- Ydy hi'n rhesymol i'r teithiwr osgoi gwneud y daith yn gyfan gwbl?

Os mai'r ateb i unrhyw gwestiwn uchod ydy **OES** neu **YDY** – yna **Ni** fyddai'r daith fel arfer yn un ddilys.

Gyrwyr Gwirfoddol

Medrwn Môn sydd yn recriwtio gyrwyr gwirfoddol ar gyfer **Car Linc Môn** drwy hysysebu yn y wasg, gosod posteri mewn mannau cyhoeddus, a holi ar lafar. Mae'r cynllun yn edrych am wirfoddolwyr newydd yn gyson er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth i'r holl ddefnyddwyr ar draws Ynys Môn.

Cyn taith gyntaf y gwirfoddolwr, bydd Medrwn Môn yn trefnu gwiriad 'DBS' i bob gyrrwr ac yn gofyn fod gan bob gyrrwr y canlynol:

- Trwydded Yrru Ddilys
- Tystysgrif MOT
- Tystysgrif yswiriant cynhwysfawr



The poster features the Car Linc Môn logo at the top left. The main text asks if the reader is looking for a car and if they are willing to volunteer for a few hours. It states that there is a need for volunteers to provide the service across the island. Below this, it says 'Ynys Môn' in large red letters, followed by 'Telir costau teithio [50c y filltir]'. There is a small illustration of a red car with a green logo on the side. At the bottom, it provides contact information: 'Am fwy o wybodaeth: 01248 725745 linc@medrwnmon.org'.

Cost y Gwasanaeth

Cost pob taith hefo **Car Linc Môn** ydy £4.50 am y 6 milltir cyntaf, ac yna 55c y filltir wedyn. Er enghraifft, byddai taith o Langefni i Ysbyty Gwynedd ac yn ôl (taith o 19 milltir) yn costio £11.65 (sef £4.50 am y 6 milltir cyntaf a £7.15 am y 13 filltir arall). Fe fydd y gyrrwr yn derbyn 50c y filltir am bob siwrne. Swyddog o Medrwn Môn sydd yn gweinddu'r holl daliadau.

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 fe wnaeth Car Linc Môn drefnu 719 siwrne – cyfanswm o 18,104 milltir

CAR LINC MÔN –  01248 725745
linc@medrwnmon.org